WYTHNOS 8

DAL ATI FEL CRISTION

CYN Y SGWRS

> *Croesawch bawb sydd wedi dod ac awgrymwch eu bod yn cymryd 20 munud i weithio trwy'r adran o'r Llawlyfr Astudio o'r enw TRAFODAETH GRŴP I gyda'u grŵp.*

Y SGWRS

> *Cyflwynwch y sgwrs. Dim ond canllaw cyffredinol yw'r geiriad isod. Diben y sgwrs yw rhybuddio Cristnogion y byddant yn wynebu gwrthwynebiad gan y byd o'u cwmpas, gan eu natur bechadurus eu hunain, a hefyd gan y diafol. Mae'r sgwrs yn egluro sut mae dal ati fel Cristion er gwaetha'r gwrthwynebiad hwn.*

Mae'r ffilm *Saving Private Ryan*, sydd wedi'i gosod yn ystod yr Ail Ryfel Byd, yn adrodd hanes grŵp o ddynion sy'n cael gorchymyn i fynd i achub un dyn o'r tu ôl i linellau'r gelyn yn Normandi. Cawn wybod bod tri brawd y dyn wedi cael eu lladd wrth frwydro, gan adael y dyn hwn fel unig blentyn i fam sengl. Pan fo Pennaeth Staff Byddin yr Unol Daleithiau yn clywed am y sefyllfa, mae'n rhoi gorchmynion i amddiffyn y mab gwerthfawr hwn sydd ar ôl, sef y milwr James Ryan, ac mae'n anfon tîm o filwyr allan i ddod ag ef yn ôl yn fyw.

Mae'r gorchwyl hwn yn hynod o beryglus, a fesul un mae'n hawlio bywydau'r milwyr. Ar un pwynt mae'r capten yn dweud, "Gobeithio bod Ryan yn deilwng o hyn. Gobeithio y bydd yn mynd adref ac yn iacháu ryw afiechyd neu'n dyfeisio bwlb golau sy'n para'n hirach."

Ond maent yn ufuddhau i'r gorchmynion i achub Ryan, ac yn y frwydr olaf, ar bont llawn sieliau, wrth i'r Capten farw, mae'n sibrwd ei eiriau olaf wrth Ryan: "James - mae'n rhaid i ti haeddu hyn - haedda hyn."

Hanner can mlynedd yn ddiweddarach, yng ngolygfeydd olaf y ffilm, rydym yn gweld James Ryan oedrannus yn dychwelyd i Normandi gyda'i wraig a'i blant a'i wyrion. Mae'n penlinio wrth fedd y capten ac, wrth i ddagrau lenwi ei lygaid, mae'n dweud, "Mae fy nheulu yma gyda mi heddiw. Bob dydd rwy'n meddwl am yr hyn ddywedaist wrthyf y diwrnod hwnnw ar y bont. Rwyf wedi ceisio byw fy mywyd orau y gallwn i. Gobeithio bod hynny'n ddigon. Gobeithio, yn dy lygaid di o leiaf, fy mod wedi haeddu beth y gwnaeth pob un ohonoch drosof." Yna mae'n troi at ei wraig ac yn gofyn iddi'n bryderus, "Dweud wrthyf fy mod wedi byw bywyd da. Dweud wrthyf fy mod yn ddyn da ..."

Mewn ffordd, mae geiriau olaf y capten - "Haedda hyn" - wedi andwyo Ryan. A allai fyth gyfiawnhau marwolaethau'r dynion ifanc hynny? Mae Ryan wedi byw ei holl fywyd gyda geiriau olaf ei achubwr yn atseinio yn ei glustiau.

Ond mae geiriau olaf Iesu - a gofnodwyd yn Efengyl Ioan pennod 19, adnod 30 - yn wahanol iawn. Wrth iddo farw i'n hachub ni, nid yw Iesu'n dweud "Haedda hyn." Mae'n dweud: "Gorffennwyd." Mae gan y geiriau hyn hefyd y pŵer i effeithio ar weddill ein bywydau.

Wrth i Iesu farw ar y groes i'ch achub chi a fi rhag pechod, barn ac uffern, dywedodd y gair syfrdanol hwnnw: "Gorffennwyd." Y gair yn y Groeg yw, "tetelesti." Mae yn yr amser gorffennol ac mae'n golygu "y mae wedi'i gyflawni." Dyma'r gair y byddai adeiladwr yn ei weiddi wrth osod y llechen olaf ar do tŷ y mae wedi'i adeiladu. Neu'r gair y byddai cwpl yn ei ddefnyddio ar ôl gorffen talu eu morgais ar ôl cyfnod o bum mlynedd ar hugain. Tetelesti - gorffennwyd.

A sylwch nad "Rwyf fi wedi gorffen," ddywedodd Iesu, fel petai hon yn waedd olaf anobeithiol a hunandosturiol o ildio, caniatáu gorchfygiad neu fethiant. Na, mae'n llef o gwblhad, o gyflawniad, o fuddugoliaeth - "Gorffennwyd."

Felly, wrth iddo farw i'm hachub, nid yw Iesu yn dweud, "Mae'n rhaid i ti haeddu hyn Rico, haedda hyn." Na, mae'n dweud, "Rico, gorffennwyd. Maddeuwyd dy bechodau - pechodau'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol - maddeuwyd y cyfan." Gorffennwyd. Alla i ddim ei haeddu, alla i ddim talu amdano, dydw i ddim wedi gwneud unrhyw beth i'w haeddu. Ond bu farw Crist drosof fi i dalu am fy mhechodau, i ddod â mi yn ôl i berthynas â'm Creawdwr cariadus.

Ond ni fydd y berthynas hyfryd hon yn hawdd. Bydd Cristnogion yn wynebu gwrthwynebiad: gan y byd o'u cwmpas, gan eu natur bechadurus eu hunain, a hefyd gan y diafol, sydd eisiau tanseilio perthynas y Cristion â Duw.

Felly yn gyntaf, bydd gwrthwynebiad gan y byd. Os ydych yn sefyll dros eiriau Crist, os ydych yn atgoffa pobl eu bod yn byw ym myd Duw, eu bod yn atebol iddo, bydd adegau pan gewch eich cau allan gan bobl - hyd yn oed y rhai yr ydych yn eu caru. Gall fod yn brofiad poenus cael eich anwybyddu'n gwrtais neu gael y rhai agosaf atoch yn ymosod arnoch ar lafar. Darganfu Iesu fod y rhai a oedd yn meddwl eu bod yn ei adnabod orau - y rhai yr oedd wedi tyfu i fyny â hwy - yn gwrthod yr honiadau yr oedd yn eu gwneud, ac wedi'u tramgwyddo o'i achos ef. Felly os yw pobl yn cael eu tramgwyddo o'n hachos ni, mae'n gysur mawr gwybod bod yr un peth yn wir am Iesu. Yn Ioan 15, adnod 18 ymlaen, mae Iesu yn ein rhybuddio'n glir am hyn: "Os yw'r byd yn eich casáu chwi, fe wyddoch ei fod wedi fy nghasáu i o'ch blaen chwi ... Os erlidiasant fi, fe'ch erlidiant chwithau."

Yn ail, bydd pob Cristion yn wynebu gwrthwynebiad gan eu natur bechadurus eu hunain. Fel y dywed Paul yn Rhufeiniaid 7, adnodau 18 ac 19: "Oherwydd mi wn nad oes dim da yn cartrefu ynof fi, hynny yw, yn fy nghnawd. Y mae'r ewyllys i wneud daioni gennyf; y peth nad yw gennyf yw'r gweithredu. Yr wyf yn cyflawni, nid y daioni yr wyf yn ei ewyllysio ond yr union ddrygioni sy'n groes i'm hewyllys." Ac os yw hynny'n wir am Paul, sef un o'r Cristnogion mwyaf duwiol erioed, yna mae'n sicr o fod yn wir amdanom ni.

Ac yn drydydd, mae gwrthwynebiad gan y diafol. Beth ydych chi'n ei feddwl am y diafol? I lawer o bobl, mae'n jôc: y dyn mewn teits coch sydd â chyrn anargyhoeddiadol a phicfforch blastig. Nid yw'n fygythiad; mae'n jôc.

Roedd y darn y gwnaethom ei ddarllen yn gynharach yn ein TRAFODAETH GRŴP yn ei grybwyll, ac efallai y bydd hyn yn sioc i chi, ond mae'r Beibl yn haeru bod pwerau drwg ar waith yn y byd a fydd yn ceisio gwneud i chi amau'r gwirionedd, ac a fydd yn dweud celwydd wrthych ac yn eich temtio. Mae'r Beibl yn egluro bod grymoedd pwerus, cymhleth ac, uwchlaw popeth, deallus yn bodoli i danseilio'r Cristion ac unrhyw un sy'n ystyried bod yn Gristion.

Mae Iesu'n dysgu bod gwrthwynebiad y diafol yn ddifrifol: mae ar waith hyd yn oed pan fo pobl yn gwrando ar air Duw'n cael ei ddysgu. Y peth olaf mae'r diafol eisiau yw i bobl ymddiried yn Iesu a chael eu hachub. Mae Iesu'n cyfeirio at hyn yn Luc pennod 8, adnod 12, gan egluro'n glir y gall pobl glywed gair Duw ond yna: "daw'r diafol a chipio'r gair o'u calonnau, rhag iddynt gredu a chael eu hachub."

Mae Cristnogion yn rhan o frwydr ysbrydol anweledig. Trowch gyda mi at Effesiaid pennod 6, ac fe ddarllenwn ni adnodau 10-12.

> *Darllenwch Effesiaid 6:10-12 allan yn uchel.*

Sut mae'r diafol yn brwydro? Mae'n cynllunio. Mae'n brwydro'n gynnil, heb unrhyw egwyddorion moesol, dim cod moeseg.

Mae Iesu'n ei alw'n "[d]ad pob celwydd." Mae bob amser yn ceisio rhoi celwyddau ym meddyliau pobl - pethau megis, "Edrychwch, mae Duw'n anweledig. Mae'n anweledig oherwydd nad yw yno! Nid dyma'r byd go iawn. Nid realiti yw hwn. Anghofiwch amdano."

Enw arall am y diafol yn y Beibl yw "y cyhuddwr." Ac mae'n deitl priodol iawn, oherwydd mae bob amser yn cyfeirio at eich methiannau. "Pe byddet ti'n Gristion go iawn, byddet ti'n rhoi'r gorau i bechu. Sut alli di alw dy hun yn Gristion a thithau'n parhau i wneud hyn neu'r llall?" Neu, "Cofia'r peth ofnadwy y gwnes di. Does dim ffordd y galli di ddod yn Gristion."

A phan rydych yn clywed pethau o'r fath, mae'n gwbl hanfodol cofio geiriau olaf Iesu: "Gorffennwyd." Dyna pam y daeth Iesu - oherwydd ein bod yn bechaduriaid. Ar ôl i chi roi'ch ffydd yn Iesu, mae'r cwbl wedi gorffen.

Nawr, wedi dweud hynny, nid yw'n ddoeth beio'r diafol am bob damwain, anghyfleustra neu annifyrrwch. Mae'n beryglus peidio â sylweddoli pŵer y diafol, ond gall fod yr un mor niweidiol i oramcangyfrif ei bŵer. Mae'r Beibl yn dweud - diolch i'r groes - bod y diafol eisoes wedi cael ei orchfygu. Fel yr esbonia Datguddiad pennod 12, "o wybod mai byr yw'r amser sydd ganddo."

Yn wyneb gwrthwynebiad gan y byd, gan y natur bechadurus a chan y diafol, mae tri sicrwydd mawr i helpu Cristnogion.

> *Dangoswch y penawdau canlynol a'u darllen allan yn uchel.*

Tystiolaeth yr Ysbryd

Gair y Tad

Croes Crist

TYSTIOLAETH YR YSBRYD

Fel y gwelsom yn y penwythnos/diwrnod i ffwrdd, mae'r Ysbryd Glân yn rhoi cryfder ac awydd i gredinwyr frwydro yn erbyn eu natur bechadurus. Yn wir, mae'r teimlad hwn o wrthdaro mewnol - rhwng yr Ysbryd a'r natur bechadurus - yn gysur mawr, oherwydd mae'n cadarnhau bod yr Ysbryd yn real ac ar waith.

Mae'r Ysbryd hefyd yn sicrhau'r Cristion ei fod ef/ei bod hi yn un o "blant Duw". Nid ydych wedi'ch gwahanu oddi wrtho bellach, a thynghedwyd i chi fod gydag ef yn y nefoedd. I Gristnogion sy'n wynebu gwrthwynebiad, mae'r sicrwydd hwn o fywyd tragwyddol yn werthfawr iawn.

GAIR Y TAD

Gall Cristnogion hefyd fod yn sicr o'u perthynas â Duw oherwydd ei addewidion iddynt yn y Beibl.

Mae llyfr C. S. Lewis, *The Screwtape Letters*, yn cynnwys llythyrau dychmygol a ysgrifennwyd gan ddiafol hŷn i ddiafol iau. Mae'r diafol hŷn eisiau dysgu'r diafol iau sut mae achosi i ddyn sydd newydd ddod yn Gristion i betruso yn ei ffydd. A'r dacteg gyntaf y mae'n ei argymell yw gwneud i'r dyn ddibynnu'n llwyr ar ei deimladau. Nawr, peidiwch â'm camgymryd, Duw sy'n rhoi emosiynau i ni - maent yn rhan o fod yn ddynol. Ond os ydym yn dibynnu arnynt yn llwyr, byddwn yn dechrau amau ein ffydd.

Waeth beth ydym yn ei deimlo - ac fel y gŵyr pob un ohonom, gall ein teimladau newid fel y tywydd - mae rhai pethau y gallwn fod yn sicr ohonynt. Pan fyddwn yn teimlo'n bryderus, yn betrusgar, yn unig neu'n cael ein temtio, mae'n rhaid i ni atgoffa'n hunain o'r sicrwydd hwn trwy ddarllen ac ymddiried yng ngeiriau'r Duw hollbwerus a hollgariadus.

Gadewch i mi ddarllen dau o addewidion Duw yn y Beibl:

> *Darllenwch Hebreaid 13:5 (o "Oherwydd y mae ef wedi dweud …") ac Ioan 5:24 allan yn uchel.*

Nid yw realiti yn cael ei benderfynu gan yr hyn yr ydym yn ei deimlo. Caiff ei benderfynu gan addewidion Duw, sy'n dweud wrthyf fy mod yn Gristion, fy mod wedi cael maddeuant a fy mod yn mynd i'r nefoedd oherwydd yr hyn y mae Crist wedi'i wneud. Mae Duw wedi rhoi'i air i ni am y pethau hyn.

Dro ar ôl tro, pan mae clerigwyr yn ymweld â phobl sy'n marw, maent yn darganfod bod pobl yn aml yn teimlo'n euog iawn am rywbeth penodol y maent wedi'i wneud yn eu bywydau. Gallwch ofyn i'r unigolyn, "Ydych chi'n edifar? Ydych chi wedi gofyn am faddeuant gan Dduw? Ydych chi wedi gofyn am faddeuant gan yr unigolyn y gwnaethoch gam ag ef/hi?" A byddant yn aml yn ateb "ydw" i'r tri chwestiwn. Ond maent yn dal i deimlo'n hynod o euog.

Ar adegau fel hyn - pan fo'r teimladau o euogrwydd yn parhau - mae'n rhaid i Gristnogion ymddiried yng ngair Duw. Edrychwch ar 1 Ioan pennod 1, adnodau 8-9:

> *Darllenwch 1 Ioan 1:8-9 allan yn uchel.*

Felly os ydych yn teimlo'n euog am rywbeth, er eich bod eisoes wedi gofyn am faddeuant Duw, gadewch i mi ofyn hyn i chi: "Ydych chi'n meddwl bod eich pechodau chi wedi'u cynnwys yn y geiriau 'bob anghyfiawnder'?" Os felly, ydych chi'n ymddiried yn addewid Duw yma? Mae Duw yn addo y bydd yn maddau eich holl bechodau - pechodau'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Does wahaniaeth beth ydych wedi'i wneud, maddeuwyd i chi. Does dim rhaid i chi deimlo'n euog mwyach.

CROES CRIST

Y trydydd sicrwydd o berthynas y Cristion â Duw yw croes Crist. Fel yr ydym wedi gweld, nid yw Iesu'n dweud wrthym am ei "haeddu." Wrth farw dywedodd, "Gorffennwyd." Rydych mewn perthynas â Duw, nid oherwydd eich bod yn ei haeddu nag oherwydd eich bod wedi gwneud digon neu wedi bod yn ddigon da, ond oherwydd eich bod wedi ymddiried yn yr hyn y mae Iesu eisoes wedi'i wneud drosoch. Rydych mewn heddwch â Duw ac rydych yn mynd i'r nefoedd.

Fel y dywed yr apostol Paul ar ddechrau Rhufeiniaid pennod 8: " Yn awr, felly, nid yw'r rhai sydd yng Nghrist Iesu dan gollfarn o unrhyw fath."

AR DDIWEDD Y SGWRS

Dyma rai cwestiynau ar gyfer eich grwpiau

> *Dangoswch y cwestiynau canlynol a'u darllen allan yn uchel.*

- **Ydych chi'n teimlo y gallwch ymddiried yn addewidion Duw yn y Beibl?**
- **Allwch chi weld sut y gallai geiriau Iesu - 'Gorffennwyd' - effeithio ar eich bywyd?**

> *Caniatewch 30 munud i'r grwpiau weithio gyda'i gilydd trwy'r adran yn y Llawlyfr Astudio o'r enw Trafodaeth Grŵp 2.*

AR DDIWEDD Y DRAFODAETH

Cyn yr wythnos nesaf, byddai'n gymorth mawr pe baech yn cwblhau'r adran ASTUDIO GARTREF yn eich Llawlyfr Astudio.